

ITHEL ap RHOTPERT neu ROBERT (fl. 1357-82), archddiacon

Enw: Ithel ap Rhotpert Neu Robert
Rhiant: Adles wraig Rhotpert ap Iorwerth ap Rhirid
Rhiant: Rhotpert ap Iorwerth ap Rhirid
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: archddiacon
Maes gweithgaredd: Crefydd; Dyngarwch; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Cyfaill a noddwr [Iolo Goch](#), a gyflwynodd ddau gywydd gofyn iddo (gweler *I.G.E.*, arg. cyntaf, 55-61, ail arg., 49-55), ac a'i coffhaodd mewn marwnad (gweler [C. Ashton](#), *Gweithiau Iolo Goch*, 1896, 344-53). Coed-y-mynydd ym mhlwyf Ysgeifiog, Sir y Fflint, oedd cartref teuluol Ithel. Yr oedd o dras da, a cheir gan [Ashton](#) (op. cit., 267, 325-6) fanylion am ei ach a godwyd o [Dwnn](#) a *Powys Fadog*. Hannai, o'r ddwy ochr, o'r teulu a ddaeth yn ddiweddarach i ddwyn y cyfenw [Mostyn](#). Yr oedd gan ei dad, Rhotpert ap Iorwerth ap Rhirid, frawd, sef Madog neu 'Matthew de Englefield', a oedd yn esgob Bangor, 1327-57 ([Browne Willis](#), *Bangor*, 74-5; Le Neve, *Fasti*, i, 99). Yr oedd ei fam, Adles, yn gyfnither i [Ddafydd ap Bleddyn](#), esgob Llanelwy. Cyfeirir at Ithel fel B.C.L., mewn un cofnod, ond ni wyddys ddim amdano cyn 1357 pan etholodd cabidwl Bangor ef yn esgob i ddilyn ei ewythr. Gwrthododd y pab gadarnhau'r etholiad, a g r arall a benodwyd. Yr oedd Ithel yn ganon ym Mangor ac yn dal rhan o fywoliaeth Llanynys yn nyffryn Clwyd. Yn 1375 danfonodd gais at y pab am ganoniaeth yn Llanelwy i'w dal gyda'i swyddi ym Mangor, a bu'r cais yn llwyddiannus ([Thomas](#), *A History of the Diocese of St. Asaph*, i, 247). Yn yr un flwyddyn disgrifir ef fel archddiacon Llanelwy (Le Neve, i, 84). Gan fod olynnydd iddo yn ymddangos yn 1382, hwyrach mai yn y flwyddyn honno y bu farw, er fod [Pennant](#) (*Whiteford and Holywell*, 119, 308) yn dweud ei fod wedi byw hyd 1393. Dywedir iddo gael ei gladdu yn Ninas Basing (Basingwerk). Cyfeiria [Iolo Goch](#) ato fel 'archddiacon deugor' (archddiacon a berthynai i ddau gabidwl), a dywed i'r noddwr a'r bardd fod yn ddisgyblion i'r un athro pan yn ieuanc. Daeth dibyniaeth [Iolo](#) ar Ithel yn beth adnabyddus iawn ymysg y beirdd, a chyfeiria [Tudur Aled](#) ato deirgwaith (*G.T.A.*, i, 115 a 182, ii, 469). Gweler hefyd 'Kywydd Barnad Ithel ap Rotbert' gan [Saunders Lewis](#) yn *Ysgrifau Beirniadol*, III, 1967.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

